

---

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

---

<b>Enw / Name:</b>	Meilyr Rowlands
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	029 2044 6446
<hr/>	
<b>Dyddiad / Date:</b>	15.03.21
<b>Pwnc / Subject:</b>	<b>Canllawiau gwella ysgolion</b>

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Rydym yn croesawu'r canllawiau ac yn cytuno â'r cyfeiriad bras maen nhw'n ei amlinellu, ar sail dull cydweithredol a diwylliant o ymddiriedaeth a pharch rhwng sefydliadau ar bob haen o'r system addysg yng Nghymru. Rydym yn cytuno bod prosesau hunanwerthuso effeithiol yn allweddol i wella ysgolion ac y dylai'r prosesau hyn ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth, ac nid canolbwyntio'n gyfyng ar fesurau a allai yrru ymddygiadau di-fudd. Rydym yn croesawu'r cynnig i ddileu categoreiddio, ac nid ydym yn credu y dylai gael ei ddisodli gan weithgaredd labelu arall.

Gellid cryfhau'r canllawiau trwy gyfeirio at adnoddau addas, fel yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol. Gellid cynnwys neu ddarparu cyngor a chanllawiau mwy ymarferol ar weithgareddau gwella ysgolion yn y dyfodol hefyd. Nid ydym yn meddwl mai'r bwriad yw i'r holl weithgareddau gwerthuso fod 'yn seiliedig ar ymholi', yn hytrach na bod yn seiliedig ar dystiolaeth, a gellid gwneud hyn yn gliriach yn y testun.

Rydym yn croesawu'r symud i arolygu mwy rheolaidd. Y rhesymeg ar gyfer ymgysylltu mwy aml ac amrywiol rhwng arolygwyr a'r sector addysg yw y byddai'n golygu bod llai yn y fantol mewn arolygiadau, bod arolygiadau yn fwy ataliol ac amserol, a byddai'n galluogi gwasanaethau cymorth eraill i ganolbwyntio eu hymdrechion yn llawnach ar weithgarwch gwella hefyd. Er bod y gwahaniaeth rhwng atebolrwydd a'i berthynas â gwerthuso a gwella ysgolion yn fuddiol, mae angen cofio bod atebolrwydd ei hun yn fath o weithgaredd gwella.

Byddem yn croesawu eglurder am statws y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn sgil y canllawiau hyn. Hefyd, hoffem weld dull cyson rhwng y canllawiau hyn a'r canllawiau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ar gyfer llywodraeth leol a amlinellir yn y canllawiau statudol drafft ar berfformiad a llywodraethu prif gynghorau. Gallai'r canllawiau roi mwy o ystyriaeth i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) hefyd mewn perthynas â'r potensial ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â phwysigrwydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant trylwyr gan ysgolion, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth, fel yr amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion*?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau (dim mwy na 250 gair)

Rydym yn cytuno bod:

- Prosesau hunanwerthuso a gwella ysgolion yn hynod bwysig. Mae ein harolygiadau ysgol wedi nodi'r agweddau hyn yn rheolaidd fel agweddau y mae angen eu gwella dros flynyddoedd lawer. Er enghraifft, yn y sylwadau am arweinyddiaeth mewn ysgolion uwchradd yn adroddiad blynyddol diweddaraf PAEM, mae'n datgan bod 'prosesau gwella priodol ar waith yn y mwyafrif<sup>1</sup> o

<sup>1</sup> Mae Estyn yn defnyddio 'mwyafrif' yn ein gwaith arolygu i olygu dros 60% ond llai na 70% o ddarparwyr.

ysgolion i nodi meysydd penodol y mae angen eu gwella, ac i gynllunio'r gwelliannau hynny'.

- Mae'r testun yn gosod y dôn gywir ar gyfer canllawiau ar lefel uchel ynghylch gwerthuso a gwella ar y cyfan, er enghraifft trwy bwysleisio 'y dylai'r rhan fwyaf o'r egni a'r ffocws yn y system fod ar wella ysgolion, wedi'i arwain gan waith hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a chymorth effeithiol ym mhob ysgol'. (tud.2).
- Dylai gwaith gwerthuso ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth ddibynadwy o ystod o ffynonellau a pheidio â dibynnu'n ormodol ar fesurau cyfyng fel data ar ganlyniadau arholiadau yn unig.
- Mae'r cyfeiriad at gynorthwyo ysgolion i ddeall disgwyliadau Llywodraeth Cymru am ddefnyddio gwybodaeth (tud.9) yn fuddiol o ran gosod y dôn gywir.

Fodd bynnag:

- At ei gilydd, nid yw'r teitl Canllawiau gwella ysgolion yn gweddu i'r cynnwys yn llawn. Mae'r ddogfen yn darparu fframwaith o rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau. Nid canllawiau am sut i ymgymryd â gweithgarwch gwella mohonynt. Gallai fod yn ddefnyddiol egluro beth yw'r ddogfen hon, ac i'r gwrthwyneb. Hefyd, gallai fod yn fuddiol cyfeirio'r defnyddiwr at ffynonellau canllawiau ymarferol manylach, er enghraifft yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol (NEIR) pan fydd ar gael.
- Dylid bod yn ofalus wrth gyfeirio at gynllunio gwelliant fel mai hon yw'r broses wella. Rhan yn unig o'r broses hon yw nodi blaenoriaethau a chynllunio i fynd i'r afael â nhw. Hefyd, mae'n bwysig ystyried gallu ysgolion i roi strategaethau gwella ar waith i gyflawni gwelliant.
- Mae potensial am ddryswch ynglŷn â'r term 'yn seiliedig ar ymholi'. Efallai na fydd ymholi yn angenrheidiol ar gyfer pob agwedd ar werthuso. Efallai y byddai 'yn seiliedig ar dystiolaeth' yn derm gwell. Nid yw'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol yn nodi bod yr holl hunanwerthuso yn seiliedig ar ymholi. Dyhead yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol yw cefnogi ysgolion i wella lles a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Os yw'n cyfeirio at ddulliau yn seiliedig ar ymholi, gallai fod yn fuddiol diffinio beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno y dylai'r system genedlaethol ar gyfer categorreiddio ysgolion ddod i ben, ond cael ei disodli gan broses debyg, wedi'i harwain gan gonsortia rhanbarthol, lle mae consortia yn cytuno gydag ysgolion y cymorth y mae angen iddynt ei wella, fel yr amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion*?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

**Sylwadau** (dim mwy na 250 gair)

Rydym yn cytuno y dylai'r system genedlaethol ar gyfer categorreiddio ysgolion ddod i ben. Mae'n fuddiol na fyddai'r trefniadau arfaethedig ar gyfer proses debyg yn arwain at label gyhoeddedig ar gyfer ysgol. Fodd bynnag, nid ydym yn meddwl y dylid ei disodli gan broses labelu debyg.

Nid yw'n glir pam na fyddai proses wahanol yn arwain at broblemau tebyg sy'n bodoli gyda'r system genedlaethol ar gyfer categorreiddio ysgolion. Mae'r canllawiau'n datgan "y dylai consortia rhanbarthol ystyried elfennau ysgol sy'n 'Arwain', yn 'Gwella' neu 'Angen cymorth mwy dwys'". Nid ydym yn meddwl y byddai'n fuddiol defnyddio'r labeli hyn, oherwydd gallai gael ei weld fel fersiwn ddiwygiedig o gategoreiddio. Gallai'r labeli hyn

arwain at gystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach na chydweithio, a gallai arwain at drydydd partion yn creu tablau cynghrair o ysgolion yn seiliedig ar y labeli hyn. Mae gweithredu'r math hwn o system yn y ffordd hyblyg a awgrymir yn y canllawiau yn debygol o fod yn feichus, lle gall ysgolion symud yn rheolaidd rhwng gwahanol categorïau o fewn blwyddyn.

Credwn ei bod yn hynod bwysig fod consortia rhanbarthol yn glir ynglŷn â chryfderau ysgolion a'u meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn helpu consortia i hwyluso cymorth o ansawdd uchel o ysgol i ysgol. Bydd bod yn glir ynglŷn â chryfderau yn helpu nodi ysgolion sydd ag arbenigedd neu brofiad penodol i'w rannu. Bydd bod yn glir ynglŷn â meysydd i'w gwella yn helpu consortia i wybod y cymorth mwyaf priodol sydd ei angen ar bob ysgol, ac ym mha feysydd. Bydd hyn yn helpu consortia i gynllunio'n strategol a defnyddio eu hadnoddau yn effeithiol. Bydd gan bob ysgol agweddau ar arferion cryf y gallai ysgolion eraill elwa o ddysgu amdanynt. Mae'n bwysig adeiladu ar y cryfderau ar draws y system i ysgogi gwelliant a chreu'r system gydweithredol a chefnogol a ddisgrifir.

Credwn y bydd yr arolygiadau mwy rheolaidd a nodwyd yn y fframwaith yn galluogi ysgolion sy'n achosi pryder i gael eu nodi'n gynnar, er mwyn gallu nodi cymorth priodol. Credwn fod perygl, o gael consortia rhanbarthol yn dynodi labeli i ysgolion hefyd, y bydd yn ei gwneud yn anodd symud oddi wrth hyn yn gweithredu fel atebolrwydd yn hytrach na gwerthuso a gwella.

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau gwerthuso a gwella, a'r system atebolrwydd, fel yr amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion*? A gaiff y gwahaniaeth hwn ei wneud yn glir?

<b>Cytuno</b>	✓	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau** (dim mwy na 250 gair)

Mae'r canllawiau yn gwahaniaethu'n fuddiol rhwng gweithgareddau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, ac yn cefnogi'r dyhead am newid diwylliannol oddi wrth ystod gyfyng o fesurau atebolrwydd. Rydym yn cytuno'n gryf na ddylai atebolrwydd yrru ymddygiadau negyddol. Dylai'r system atebolrwydd weithio ochr yn ochr â gwelliant. Dylai ategu gwelliant, a'i lywio, pan fydd yn briodol. Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i atebolrwydd i ddysgwyr a'r cyfrifoldeb moesol i wneud yr hyn sydd orau iddynt. Dylai atebolrwydd ysgogi gwelliant pan fydd yn briodol.

Mae negeseuon dilys, cadarnhaol i herio canfyddiadau presennol o ddata yn y canllawiau hyn sy'n cefnogi symud oddi wrth ddefnyddio data ar gyfer atebolrwydd i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthuso a gwella. Er enghraifft, y paragraff olaf ar dudalen 10... *Mae dangosyddion arholiadau allanol a gyhoeddwyd wedi'u bwriadu ar gyfer diben penodol, sef cyfleu data mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer hunanwerthuso ac fel man cychwyn ar gyfer gwaith dadansoddi a chynllunio. Felly, mae'r wybodaeth yn gyfyngedig o friad o ran yr hyn y gall ei gyfleu. Ni ddylid ei defnyddio ar ei phen ei hun nac allan o gyd-destun, na'i chyflwyno fel tystiolaeth o ba mor effeithiol yw ysgol. Fel hyn, mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer hunanwerthuso, ond ni ddylid ei defnyddio ar ei phen ei hun, boed at y diben hwn nac at ddibenion atebolrwydd.* Bydd rhoi'r dyhead hwn ar waith yn heriol, ac mae'n debygol o gymryd amser i'w newid, er enghraifft, 'cyfuno tryloywder ac atebolrwydd'. Gallai ysgolion barhau'n gystadleuol gan fod niferoedd disgyblion yn cynhyrchu incwm, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae newid demograffig sylweddol.

Mae'n bosibl y byddant yn chwilio am gyfleoedd i hysbysebu eu cryfderau, a byddai eu deilliannau academaidd yn enghraifft amlwg.

Gallai negeseuon yn y canllawiau fod yn gliriach, yn enwedig mewn perthynas â'r gorgyffwrdd rhwng atebolwydd a thryloywder, fel yr amlinellir ar dudalen 8. Er enghraifft, *'Mewn cyferbyniad â hynny, y system atebolwydd yw'r rhwyd ddiogelwch i'w defnyddio pan na fydd y prosesau gwerthuso a gwella yn gweithio'n effeithiol. Ni ddylai lywio gweithgarwch gwella ysgolion, ond dylai sicrhau y caiff problemau eu nodi a'u datrys'* (tud. 2). I'r ysgolion niferus nad oes angen rhwyd ddiogelwch arnynt, gall atebolwydd ychwanegu gwerth o hyd a'u cefnogi ar eu taith barhaus i wella. Mewn achosion lle mae atebolwydd yn nodi problemau ac yn eu cefnogi i fynd i'r afael â nhw, mae'n llywio gwelliant, a gall y deiliant arolygu fod yn sbardun ar gyfer y gwelliannau angenrheidiol. Dylid defnyddio gwybodaeth am atebolwydd yn briodol i gefnogi gwelliant, neu fel arall, mae'r ysgol yn aros yn y 'rhwyd ddiogelwch' yn unig.

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno y bydd y system atebolwydd a amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion* yn alinio â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i egwyddorion?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau** (dim mwy na 250 gair)

Rydym yn cytuno bod y system atebolwydd a amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion* yn debygol o gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i egwyddorion, gan mai ei fwriad cyffredinol a'i effaith debygol yw y bydd yn sefydlu diwylliant cydweithredol rhwng sefydliadau ar bob haen o'r system addysg yng Nghymru. Hefyd, mae'r cynigion yn debygol o annog mwy o arloesedd a hyblygrwydd mewn addysgu a dysgu sydd wrth wraidd y Cwricwlwm newydd i Gymru. Yn benodol, mae'r cynnig i ddileu agweddau ar y system atebolwydd bresennol sydd wedi canolbwyntio gormod ar fesur deilliannau penodol, yn fuddiol. Nid yw'r system atebolwydd bresennol yn addas at ei diben i werthuso pa mor dda y mae ysgolion a'r system addysg gyfan yn cynorthwyo dysgwyr i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, abl, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion moesegol, gwybodus, sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

Hefyd, mae'r system atebolwydd arfaethedig yn adeiladu ar brosesau hunanwerthuso sy'n pwysleisio'r angen i ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth, ac nid canolbwyntio'n gyfyng ar fesurau a allai ysgogi ymddygiadau di-fudd.

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n cytuno â'r rolau a'r cyfrifoldebau a bennwyd i wahanol gyrrff o fewn y system addysg, fel yr amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion*?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau** (dim mwy na 250 gair)

Rydym yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol egluro rolau a chyfrifoldebau pawb sydd ynghlwm â gwella ysgolion.

### **Llywodraethwyr**

Rydym yn cytuno â'r modd y mae rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr wedi eu hamlinellu. Nid oes gan bob ysgol gyrff llywodraethol cryf a all sicrhau gwelliant ysgol neu sicrhau atebolrwydd lleol, fel yr amlinellir yn y canllawiau. Gallai fod yn ddefnyddiol adolygu p'un a yw'r model a'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer llywodraethu ysgolion yn addas at eu diben, neu p'un a ellid ystyried modelau eraill posibl yn y dyfodol, fel byrddau ysgol proffesiynol neu ychwanegu capasiti proffesiynol annibynnol at y model presennol.

### **Awdurdodau lleol**

Rydym yn cytuno â'r canllawiau.

### **Consortia rhanbarthol**

Nid yw'r canllawiau hyn yn datgan eu bod yn disodli'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2015). Mae'r canllawiau hyn yn troedio llawer o'r un tir, ond mae pob dogfen yn cwmpasu materion eraill yn unig hefyd. Ni all y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol barhau i arwain gwaith y consortia rhanbarthol os caiff y canllawiau hyn eu cyflwyno fel canllawiau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae cynnwys yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol na chwmpesir yn y canllawiau hyn, felly gallai Llywodraeth Cymru ystyried un o'r dulliau canlynol:

- Disodli'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol â'r canllawiau hyn, ond ehangu'r canllawiau hyn i gofnodi cynnwys y model yn llawn (lle bo'n berthnasol o hyd)
- Ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, cyhoeddi Model Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Mae'r canllawiau yn datgan 'nad oes angen i awdurdodau lleol greu prosesau ychwanegol i oruchwylio gwaith consortia rhanbarthol'. Credwn ei bod yn bwysig ystyried pam y gallai awdurdodau lleol fod wedi gwneud hyn yn y system bresennol. Nid yw'r trefniadau atebolrwydd presennol wedi bod yn ddigon effeithiol bob amser i fynd i'r afael â gwendidau mewn gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol, gan achosi i awdurdodau lleol unigol sefydlu eu prosesau eu hunain ar gyfer dwyn eu consortiwm i gyfrif. Credwn y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gymorth ar gyfer llywodraethu gwasanaethau rhanbarthol yn effeithiol yng Nghymru.

Er bod gan awdurdodau lleol eu dyletswyddau statudol ar gyfer ysgolion, fel yr amlinellir yn Neddf Addysg 1996, dylent gadw'r hawl i gymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau bod eu hysgolion yn diwallu anghenion y boblogaeth yn eu hardal, gan gynnwys camau i sicrhau bod y consortiwm rhanbarthol yn gweithio'n effeithiol ar eu rhan. Dylai'r camau hyn ond cael eu cyfyngu gan amser yn ôl yr angen, fodd bynnag, rydym yn cytuno na ddylai awdurdodau lleol sefydlu prosesau arferol ar gyfer dwyn eu consortiwm i gyfrif, ar wahân i'w prosesau rhanbarthol. Efallai y bydd angen diweddarw'r canllawiau hyn, neu'u prawfddarllen yn y dyfodol i ystyried unrhyw oblygiadau ar gyfer trefniadau, pe bai Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu creu yn gyfreithlon mewn unrhyw ranbarth.

Mae'r canllawiau yn cyfeirio at y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (sydd bellach yn Ddeddf). Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau yn cyfeirio at y ddogfen 'Canllawiau statudol drafft: Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau', a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Byddai'n fuddiol iawn gosod y canllawiau hyn ar addysg am werthuso, gwella ac

atebolrwydd yng nghyd-destun ehangach gwerthuso, gwella ac atebolrwydd prif gynghorau.

### **Awdurdodau esgobaethol**

Rydym yn cytuno â'r canllawiau.

### **Estyn**

Rydym yn cytuno â'r canllawiau.

**Cwestiwn 6** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, fel yr amlinellir yn y *Canllawiau gwella ysgolion*, yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, yn cynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig<sup>2</sup>.

**Sylwadau** (dim mwy na 250 gair)

Dylai trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, ac ystyried grwpiau o ddysgwyr lle bu pryderon am eu deilliannau. Bydd yr effaith a gaiff y fframwaith ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol yn cael ei dylanwadu gan gymhwyso canllawiau a pholisi yn ymarferol, hynny yw, pa mor dda y mae pob partner yn cymhwyso'r fframwaith hwn, ac adnoddau manylach ar gyfer gwella ysgolion, fel yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol.

Nid yw'r trefniadau presennol wedi ysgogi digon o gynnydd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Wrth gefnogi ysgolion i ystyried profiadau dysgwyr dan anfantais yn fwy cyfannol, dylai'r trefniadau newydd alluogi ysgolion i fod yn fwy gwybodus am fwy o agweddau ar eu gwaith sy'n effeithio ar ddysgwyr dan anfantais. Gwyddom hefyd o dan y system bresennol, y bu llawer o graffu ar gynnydd a chyrrhaeddiad y grŵp hwn yn benodol, a bod risg y gallent gael llai o sylw.

Mae deilliannau ar gyfer rhai dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi bod yn destun pryder hefyd. Nid yw'n gwbl glir o'r canllawiau sut bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth cyfannol i ysgolion i gefnogi eu gwelliant.

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r *Canllawiau gwella ysgolion* yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

---

<sup>2</sup> Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar gyrrff llywodraethol i sicrhau bod eu hysgol yn bodloni gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn disgyblion rhag gwahaniaethu ac aflonyddwch yn seiliedig ar 'nodweddion gwarchoddedig'. Y nodweddion gwarchoddedig hyn yw anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

### Sylwadau

Os caiff y canllawiau eu rhoi ar waith yn effeithiol, yna dylai hyn gefnogi gwelliannau mewn cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y system addysg. Rydym yn cydnabod y bu heriau mewn rhai ardaloedd o Gymru wrth frocera cymorth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n achosi pryder. Rydym yn croesawu'r anogaeth o fewn y canllawiau ar gyfer consortia rhanbarthol i edrych y tu hwnt i'w rhanbarth eu hunain i drefnu cymorth ar gyfer ysgolion.

**Cwestiwn 8** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn y canllawiau, er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Sylwadau

Nid ydym yn credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau.

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gadeirio digwyddiadau 'Adolygu a her' tymhorol gyda phob consortiwm rhanbarthol, fel y cyfeirir atynt yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Nid yw'r canllawiau hyn yn cyfeirio at y digwyddiadau hyn, ond eto, maent yn rhan o'r system atebolrwydd ehangach ar hyn o bryd. Gallai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach ynglŷn â'i bwriad ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol, yn cynnwys eu diben, eu tryloywder, pwy ddylai gymryd rhan ynddynt, a sut maent yn gweddu i'r system atebolrwydd newydd. Os bydd hyn yn parhau i fod yn rhan o'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer gwella ysgolion, byddai'n fuddiol cryfhau rôl sail dystiolaeth Estyn o ran llywio'r trafodaethau.

Ar dudalen 11, mae'r canllawiau'n awgrymu na ddylid defnyddio gwybodaeth at ddibenion lluosog, er enghraifft defnyddio'r un wybodaeth ar gyfer gweithgareddau gwerthuso a gwella, ac ar gyfer atebolrwydd hefyd. Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor, weithiau defnyddir gwybodaeth yn deg at ddibenion lluosog. Er enghraifft, cyhoeddir deilliannau mewn cymwysterau er tryloywder; fe'u defnyddir i gefnogi gweithgareddau gwerthuso a gwella, ac fe'u hystyrir hefyd o fewn prosesau atebolrwydd. Y mater allweddol yw'r ffordd y defnyddir y wybodaeth at y gwahanol ddibenion hyn, yn hytrach na ph'un a chaiff ei defnyddio.

Ar dudalen 16, nododd y bydd y canllawiau hyn yn disodli canllawiau Llywodraeth Cymru, sef canllawiau 'Cynlluniau datblygu ysgolion' (CDY). Rydym yn cytuno bod y canllawiau CDY wedi dyddio, a bod angen naill ai eu diweddarau neu'u disodli. Rydym yn nodi eu bod yn cynnwys canllawiau gweithredol manylach ar gyfer ysgolion nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn y canllawiau newydd hyn. Byddai'n fuddiol ystyried trosglwyddo a diweddarau'r



cynnwys defnyddiol a pherthnasol o ganllawiau'r CDY i'r canllawiau hyn, neu'i gyfeirio o'r canllawiau newydd hyn i le arall, er enghraifft yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol lle gellid postio canllawiau gweithredol tebyg (ac, i ryw raddau, mae eisoes wedi ei gynnwys yn yr adnodd peilot).

Ar dudalen 18, mae'r canllawiau yn nodi y dylai Estyn ddibynnu ar y trefniadau gwerthuso a gwella a amlinellir yn y canllawiau 'er mwyn defnyddio Cynllun Datblygu Ysgolion fel gwybodaeth cyn arolygu'. Rydym yn cytuno y dylem ni ddefnyddio'r trefniadau gwerthuso a gwella i gefnogi'r broses arolygu. Fodd bynnag, er bod y CDY yn bwysig ac y dylem ni ei ystyried yn rhan o'n proses arolygu, ni fyddem yn disgwyl i'r CDY gwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arolygwyr yn trafod â'r ysgol pam mae wrthi'n gweithio ar y blaenoriaethau a amlinellir yn y CDY ar hyn o bryd, a'r cynnydd y mae'n ei wneud â'r camau y mae'n eu cymryd, a'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr. Ni fydd arolygu yn hyrwyddo'r CDY fel dogfen â 'llawer yn y fantol', a bydd arolygwyr yn pryderu'n fwy am beth sy'n digwydd yn yr ysgol na'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar bapur.

Er ein bod yn cefnogi tryloywder y wybodaeth am addysg yn llawn, mae angen i ni fod yn ofalus i beidio â rhoi gormod o bwyslais na disgwyliad ar ddogfennau ar gyfer y cyhoedd, lle mae ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn treulio gormod o amser yn profi beth maent wedi'i wneud neu'n creu cynlluniau atyniadol ar gyfer yr hyn y byddant yn ei wneud, yn hytrach na threulio'r amser yn gwerthuso, a gwella ysgolion.

Mae'r canllawiau yn awgrymu y bydd Estyn yn arolygu consortia rhanbarthol yn rheolaidd (tud.28). Rydym yn arolygu consortia rhanbarthol mewn dwy ffordd ar hyn o bryd: yn gyntaf, trwy ein harolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol sy'n cynnwys awdurdodau lleol unigol; yn ail, trwy ein gwaith thematig, fel yr amlinellir yn y cylch gwaith blynyddol i Estyn. Nid oes gennym gylch o arolygiadau rheolaidd o gonsortia rhanbarthol unigol ar hyn o bryd. Byddai'n fuddiol pe bai'r canllawiau hyn yn egluro disgwyliadau Estyn mewn perthynas ag arolygu consortia rhanbarthol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

